# PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 27 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.M. Birch, S. Campbell, C.A. Cave, S.J. Haines, N.P. Hodges, S.D. Perkes a R.R. Thomas.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), A. Trousdell (Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), W. Norman (Cyngor Tref Penarth – Eilydd), C. Hadley (Cyngor Cymuned Tregolwyn), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan), Dr. Misra (Cyngor Cymuned Llandochau), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), S. Rich (Cyngor Cymuned Llan-gan – Eilydd), S. Harries (Cyngor Cymunedol Sain Tathan – Eilydd), A. Evans (Cynbgor Cymuned Sain Dunwyd), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn) a N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, P. Drake, A.M. Ernest, H.C. Hamilton ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Jj. Aviet, J. Lynch-Wilson a H.M. Payne (Cyngor Bro Morgannwg), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), G. Marks (Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd), A. Phillips (Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro) a S.M. Toker (Cyngor Cymunedol Sain Tathan)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Campbell fuddiant personol yn Eitem Rhif 8 ar yr Agenda – Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Campbell yn aelod o'r gweithgor trawsbleidiol a sefydlwyd o fewn y Cyngor i sefydlu pwynt cyfeirio ar gyfer yr adolygiad o ffiniau cymunedol.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD A DIWEDDARIAD GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU –

CYTUNWYD – Y dylid nodi'r Cyflwyniad PowerPoint / Diweddariad Gwasanaeth a ddarparwyd gan gydweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a diolch yn ddiffuant i holl Swyddogion y Gwasanaeth Tân a gymerodd ran.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD LLAFAR GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU –

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Arolygydd Henderson am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

EITEM AGENDA 6. CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR CYMUMED LLANDOCHAU: CYFLYMDER TRAFFIG –

CYTUNWYD –

(1) Nodi'r cyflwyniad PowerPoint a ddarparwyd i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llandochau.

(2) Rhannu cadarnhad o'r amserlen ymgynghori statudol ar gyfer Gorchmynion Rheoli Traffig gyda holl Aelodau'r Pwyllgor a Chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar ôl y cyfarfod.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Rhoi sylw i gynnwys y cyflwyniad ac arferion y Cyngor i liniaru pryderon y gymuned dros gyflymder traffig.

(2) Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn ystyried amserlenni ymgynghori GRhT mewn perthynas â pha mor aml y mae cyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal er mwyn ymateb yn effeithiol ac effeithlon i unrhyw GRhT angenrheidiol a gyflwynwyd mewn ymateb i derfyn cyflymder diofyn 20mya Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth ffyrdd cyfyngedig.

EITEM AGENDA 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2020-21 (CYF) –

CYTUNWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2021-22 a'r adroddiad Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol atodedig gyda chyfeiriad dilynol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad cwmpasu a’r adroddiad blynyddol i sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a’r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gyflawni'r Cynllun Lles presennol.

EITEM AGENDA 8 ADOLYGIAD CYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (SCE) –

PENDERFYNWYD – nodi y rhoddir hysbysiad ymlaen llaw o’r broses ar gyfer, a’r amserlenni perthnasol mewn perthynas ag Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg, sydd wedi’i drefnu ar gyfer 2023.

Rheswm dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys yr adroddiad cwmpasu a'r canllawiau ar gyfer Prif Gynghorau ar yr adolygiad o gymunedau gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.